

FUNDED BY
ARIENNIR GAN



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief

Peilot 2020-21

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief | 1 |
| Peilot 2020-21 | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru | 3 |
| Grow Cardiff | 8 |
| Gwasanaeth Gofal Cymunedol a Lles (CCAWS) | 18 |
| YMCA Pen-y-bont ar Ogwr | 31 |
| Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru | 36 |

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd CGGC lansiad cynllun peilot newydd – Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru (CRCF). Mewn partneriaeth ag arweinwyr rhanbarthol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), mae CGGC yn cyflwyno'r cynllun hwn yn llawn fel cyfryngwr Comic Relief (CR). I sicrhau bod arian CR yn cyrraedd grwpiau llawr gwlad, cynlluniodd CGGC gynllun â dwy elfen: Grantiau Cymunedol bach sydd werth rhwng £1,000-£10,000, wedi'u dosbarthu drwy Gynghorau Gwirfoddol Sirol, a grantiau mwy ar gyfer twf sefydliadol, drwy CGGC sydd werth rhwng £30,000-£60,000.

Dyfarnodd y grantiau Twf Sefydliadol £240,000 i chwe sefydliad ar draws Cymru ar gyfer prosiectau a fyddai'n adeiladu capasiti sefydliadol, datblygu maes gwaith newydd, neu lenwi diffyg sgiliau. Roedd y grant yn gystadleuol iawn - derbyniwyd 95 o geisiadau.

Dyfarnwyd grantiau ym mis Rhagfyr 2019 gyda'r broses o gyflwyno'r prosiectau yn dechrau ym mis Ionawr 2020. O ganlyniad, effeithiwyd yn fawr ar y cynllun peilot gan y pandemig COVID-19 gyda'r holl fudiadau yn addasu'n llwyddiannus mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys addasiadau, llwyddiannau a thwf sefydliadol y 6 phrosiect a ddyfarnwyd o dan Gronfa Twf Sefydliadol gyntaf Comic Relief. Er gwaethaf amgylchiadau anarferol ac anodd, llwyddodd pob mudiad i gyflawni eu prosiectau yn llwyddiannus gan adeiladu capasiti, gwynwch ac incwm ar gyfer y dyfodol.

Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru

CEFNDIR

Mae Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru yn gweithio gyda'r rhai sydd wedi dioddef ymosodiadau rhywiol a thrais ar draws canolbarth Cymru, y mae nifer ohonyn nhw wedi'i chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau priodol yn y gorffennol.

Yn 2019, pan wnaeth y mudiad gais am gyllid, derbyniodd Heddlu Dyfed-Powys 977 o adroddiadau o drais a cham-drin rhywiol gydag adroddiadau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn cynyddu 7% i 162,030 (ONS 2019).

Yn anffodus, mae Arolwg Troseddau Cymru yn dweud mai dim ond 15% o ddioddefwyr trais rhywiol sy'n datgelu beth sydd wedi digwydd, sy'n golygu bod nifer y bobl sydd angen cymorth yn llawer uwch na'r hyn y mae adroddiadau'r heddlu yn ei awgrymu.

Fe wnaeth Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru gydnabod bod y galw am wasanaethau trais rhywiol arbenigol yn yr ardal yn fwy na'r capasiti, ac roedd hynny'n waeth oherwydd diffyg cyrsiau hyfforddi cwnsela lleol gyda'r un agosaf yn daith tair awr a hanner y ddwy ffordd.

I gynyddu capasiti'r mudiad a nifer y cwnselwyr arbenigol yn yr ardal, dyfarnwyd £59,295 i Ganolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru drwy Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief i ddatblygu a chyflwyno cyrsiau cwnsela sydd wedi'u hachredu.

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT

Ers dyfarnu'r cyllid yn 2019, mae 27 o bobl eisoes wedi cwblhau Cwrs Cwnsela Lefel 2 a bellach yn dechrau ar eu cwrs *Tystysgrif Cwnsela Lefel 3* i ddod yn gwrselwyr cymwys.

Oherwydd y pandemig COVID-19 a chyfyngiadau'r cyfnod clo, penderfynodd Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru i symud y broses o gyflwyno'r cyrsiau ar-lein. Roedd y penderfyniad yn un llwyddiannus iawn, gan gael gwared ar rwystrau daearyddol cefn gwlad Canolbarth Cymru ac ehangu cyrhaeddiad y prosiect.

Cymaint fu poblogrwydd y cwrs yn y fformat hwn, cofrestrodd 36 person arall ar gyfer y cwrs *Lefel 2* newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2021, gyda phobl yn cymryd rhan o Ganolfanbarth Cymru a thu hwnt, fel Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

Ariannodd y grant Swyddog Datblygu Rhanbarthol hefyd, sydd wedi meithrin perthnasoedd newydd ag asiantaethau lleol ac wedi gwella partneriaethau sy'n bodoli'n barod. Mae'r perthnasoedd hyn wedi bod yn hollbwysig yn ystod y cyfnod cyflawni wrth i'r mudiad addasu i gyfyngiadau COVID-19.

Drwy gydweithio, mae Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru wedi gallu rhoi a derbyn cymorth wrth fudiadau lleol eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i redeg, a bod pobl yn parhau i gael eu cefnogi.

O fewn 2 ddiwrnod i ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, datblygodd y Swyddog Datblygu Rhanbarthol ac aelodau eraill o staff becyn hyfforddi ar-lein ar gyfer staff gofal cymdeithasol a oedd yn cefnogi cleientiaid o bell, ynghyd ag adnoddau y gellid eu hanfon at eu cleientiaid. Rhannwyd y cwrs hwn ag asiantaethau lleol (gwirfoddol a statudol) i'w helpu i addasu i weithio o bell.

Wrth symud ymlaen, rôl y Swyddog Datblygu Rhanbarthol fydd cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddatblygu'r elfen fusnes, yn enwedig mewn perthynas â chynyddu'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned, ac wrth ddatblygu a hyrwyddo eu coleg cwnsela.

TWF SEFYDLIADOL

Mae datblygu a chyflwyno cyrsiau cwnsela sydd wedi'u hachredu yn creu cronfa leol o gwrselwyr cymwys a fydd yn rhoi cymorth i gleientiaid, ac i gleientiaid y sector gofal cymdeithasol yn ehangach yng Nghanolbarth

Cymru. Mae cleientiaid cyfredol eisoes wedi elwa o'r cynnydd yn y gwasanaethau a gostyngiad yn y rhestrau aros yn sgil hynny.

Mae datblygiad y cyrsiau cwnsela nid yn unig wedi cynyddu capasiti ond hefyd wedi cynnig ffrwd incwm newydd i'r mudiad wrth i ffioedd cyrsiau gyfrannu at gostau craidd hanfodol.

Rhoddodd y grant fuddsoddiad cychwynnol o ran cyllid, amser ac adnoddau a oedd eu hangen i sefydlu'r prosiect, a bellach mae'r mudiad wedi dweud bod y prosiect wedi dod yn hunangynhaliol, gan gynhyrchu gwarged bach.

Wrth i'r prosiect ddatblygu, bydd proffidioldeb yn cynyddu ac yn helpu tuag at nod y mudiad o fod yn hunan-gynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar grantiau.

Fel rhan o'r cyrsiau hyfforddi, cynigir cyfleoedd gwirfoddoli i hyfforddeion. Mae'r trefniant hwn, sy'n gweithio i'r ddwy ochr, yn rhoi'r oriau ymarfer sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu cymhwyster, tra hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol y mae dirfawr ei angen ar gleientiaid.

Mae hyn yn sicrhau cynaliadwyedd y mudiad yn y byr dymor i leihau rhestrau aros a'r pwysau ar staff cyfredol tra'n creu cronfa hirdymor o dalent ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae datblygiadau pellach eisoes ar y gweill, gyda datblygiad cymwysterau Lefel 4, 5 a 6. Bydd hyn yn cynnig ystod lawn o gymwysterau ac yn sefydlu Canolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru fel coleg cwnsela arbenigol.

'Er nad y grant hwn yw'r un mwyaf rydyn ni wedi'i dderbyn, mae'n sicr wedi bod yn un o'r rhai sydd wedi cael yr effaith fwyaf. Mae natur y grant wedi ein galluogi i fuddsoddi yn ein dyfodol, yn hytrach nag ymateb i'r presennol yn unig,' dywedodd Mike Wilkinson, Dirprwy Brif Weithredwr.

'Mae'r manteision eisoes wedi bod yn sylweddol, ond bydd y grant yn parhau i greu gwaddol parhaol o ran dyfodol ein mudiad, y rhagolygon

dysgu a chyflogaeth i bobl leol, ac yn bwysicach, y cymorth a fydd yn cael ei gynnig i nifer o bobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau yn y blynyddoedd i ddod.'

ASTUDIAETH ACHOS

Yn ddiweddar, cwblhaodd Yvonne gwrs *Cwrsela Lefel 2*. Roedd ganddi ddiddordeb mewn dod yn gwrselydd, ond ni allai gael mynediad at gwrs lleol. Felly, pan gododd y cyfle yng Nghanolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru, roedd hi wrth ei bodd.

'Fe wnes i wir fwynhau'r cwrs, a dysgais cymaint sydd wedi bod yn ddefnyddiol yn fy mywyd proffesiynol a phersonol' dywedodd Yvonne. 'Mae hefyd wedi fy helpu i benderfynu ar fy ngyrfa yn y dyfodol; dwi eisiau helpu eraill drwy ddod yn gwrselydd trawma cymwys.'

Mae Yvonne wedi cofrestru ar gwrs *Cwrsela Lefel 3* ac ar ei ffordd i wireddu ei huchelgais o fod yn gwrselydd cymwys. Yn ystod ei chwrs, bydd yn cael cynnig cyfle gwirfoddoli yng Nghanolfan Cymorth Trais Canolbarth Cymru i fagu profiad cwsela amhrisiadwy.

Ar ôl i Yvonne lwyddo gyda'i chymwysterau, y gobaith yw y bydd y Ganolfan yn gallu cynnig gwaith iddi fel cwsrselydd cymwys yn y dyfodol.

ADBORTH O'R CWRS

'Ro'dd yn brofiad positif ar y cyfan, er gwaethaf blwyddyn anodd iawn a dwi'n teimlo ei fod wedi fy rhoi mewn sefyllfa dda i ddatblygu fy astudiaethau sgiliau cwsela.'

'Cwrs pleserus iawn, edrych ymlaen at gwrs Lefel 3.'

'Dwi wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r anogaeth a gefais gan fy nhiwtor a'm cyfoedion drwy gydol y cwrs – mae hyn wedi newid fy marn amdanaf fy hun a fy ngallu yn y maes hwn yn ddramatig a dydw i ddim yn credu y byddwn wedi cael yr hyder i barhau heb hyn.'

'Y berthynas a grëwyd rhwng y gymuned a'r tiwtor, a'r pwyslais ar ein llesiant ein hunain; fe wnes i werthfawrogi'r pwyslais ar hynny drwy gydol y cwrs. Fe wnes i hefyd werthfawrogi'n fawr yr hyfforddiant sgiliau gwranddo ymarferol ac fe wnes i ddysgu o'r profiad.'

'Bodlonodd y cwrs fy nisgwyliaid; dwi'n teimlo ein bod ni wedi bondio fel grŵp. Yn bendant, dwi wedi dod yn fwy hunanymwybodol ac mae gen i ddealltwriaeth well o sgiliau cwrsela.'

'Fel cwrs sydd wedi'i gyflwyno am y tro cyntaf, ro'dd yn arbennig o dda. Er gwaethaf rhwystrau dysgu o bell, datblygais berthynas glos gyda rhai aelodau o'r grŵp a'r tiwtor, ac fe wnes i werthfawrogi hynny'n fawr.'

'Mae'n wych eich bod yn cynnig rhywbeth fel hyn yn Aberystwyth, lle mae cymaint o angen.'

'Cwrs gwych, ro'dd y tiwtor yn arbennig; ro'dd hi'n wybodus iawn o ran yr hyn roedd hi'n ei ddysgu ac roedd ganddi ffordd wych o gyfleu ei safbwynt i'n galluogi ni i ddeall. Dwi wedi tyfu fel unigolyn ers dechrau'r cwrs ac wedi ail-ddysgu'r grefft o roi'r cyfan ar gof a chadw.'

Grow Cardiff

CEFNDIR

Elusen llawr gwlad yw Grow Cardiff sy'n bodoli i gynnig cymorth ymarferol i bobl o bob oed a chefnidir, a'u helpu i ddod at ei gilydd i greu a chynnal mannau tyfu bwydwy sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yng Nghaerdydd a thu hwnt.

Wedi'i lansio ym mis Mehefin 2015, datblygwyd yr elusen gan bobl leol ar gyfer pobl leol. Mae lleiniau o dir dinesig di-fflach yn cael eu trawsnewid yn hybiau byrlymus llawn natur, ac mae bywydau a chymunedau yn cael eu trawsnewid hefyd.

Cyn gwneud cais am Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief, cynhaliodd Grow Cardiff adolygiad o weledigaeth, cenhadaeth a gweithgareddau'r mudiad a nododd yr angen am ddatblygu strategol pellach.

Drwy adolygu holl agweddau'r elusen a datblygu cynllun strategol cychwynnol, gyda'i gilydd, gwelodd randdeiliaid Grow Cardiff y meysydd allweddol i'r elusen ganolbwyntio arnyn nhw.

Dyfarnwyd £48,952 i Grow Cardiff drwy Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief i gyfrannu tuag at gyflog y Cyfarwyddwr. Drwy neilltuo amser penodol i'r Cyfarwyddwr ystyried 'y darlun ehangach', byddai'r mudiad yn gallu datblygu 'gwreiddiau' cryfach – craidd cryfach ar gyfer yr elusen i gynnal 'blagur' iach – prosiectau cynaliadwy, newydd, iach sy'n defnyddio garddio cymunedol fel offeryn aml-bwrpas i weithredu newid cymdeithasol parhaol mewn cymunedau lleol ar draws Caerdydd.

Clustnodwyd cyfran o'r cyllid i werthuso'r prosiect presgripsiynu cymdeithasol cyfredol Tyfu'n Dda, i lywio prosiectau yn y dyfodol, a datblygu gwefan newydd i wella cyrhaeddiad y mudiad.

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT: 'GROW CARDIFF: O'R CYCHWYN CYNTAF HYD AT FODEL TWF CYNALIADWY, EIN STORI O EGIN BACH I GOEDEN FFYNIANNUS'

Disgrifiwyd y broses o neilltuo adnoddau i ariannu cyflog y Cyfarwyddwr gan Grow Cardiff fel 'newid o'r bôn i'r brig'. Roedd y model blaenorol, lle cafodd y cyflog ei ariannu drwy waith prosiect uniongyrchol, yn golygu nad oedd llawer o amser i ddatblygu'r mudiad. Ond yn sgil Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief, roedd y Cyfarwyddwr yn gallu neilltuo amser i ddatblygu'r elusen, gan arwain at 7 canlyniad allweddol:

1. Datblygu Cynllun Strategol Grow Cardiff

Treuliodd ymddiriedolwyr a staff gryn amser yn trafod beth sy'n bwysig am waith Grow Cardiff, gan arwain at wirfoddolwyr yn ail-ysgrifennu ac ehangu'r Cynllun Strategol cyfredol.

Derbyniodd ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr gymorth wrth ysgrifennu'r cynllun diwygiedig wrth Gyngor Trydydd Sector Caerdydd a Busnes Cymdeithasol Cymru i wella ei eglurder a'i effaith.

Ers cwblhau a gweithredu'r ddogfen, mae wedi dod yn 'adnodd amhrisiadwy i gefnogi darpariaeth a chynaliadwyedd y mudiad', gan alluogi Grow Cardiff i ganolbwyntio ar y camau nesaf, beth mae'r mudiad yn ei gynrychioli, ac i ganolbwyntio bwriadau'r arweinwyr i fod yn fudiad blaengar sy'n meddwl am y dyfodol.

'Mae'r Cynllun Strategol wedi ein helpu i ganolbwyntio ar ble i roi ein hegri, i dyfu ac i ddatblygu' dywedodd Isla Horton, Cyfarwyddwr Grow Cardiff. 'Rydyn ni wedi dewis canolbwyntio ar ein gwaith presgripsiynu cymdeithasol, ein gwaith addysgol a chefnogi pobl i dyfu o'u cartrefi (thema newydd a ddeilliodd yn ystod y pandemig).'

2. Datblygu Presgripsiynu Cymdeithasol i erddi cymunedol therapiwtig: Y Prosiect Tyfu'n Dda

Er gwaetha'r pandemig COVID-19, mae gwaith presgripsiynu cymdeithasol cyfredol Grow Cardiff wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y

18 mis diwethaf. Pan ddaeth y cyfnod clo, a gorfodwyd gerddi i gau, roedd staff yn gallu ail-ddychmygu'r gwaith presgripsiynu cymdeithasol, gan symud i gefnogi oedolion agored i niwed i dyfu o'u cartrefi.

Gweithiodd Grow Cardiff gyda thua 300 o aelwydydd gwahanol, drwy anfon pecynnau tyfu hadau a 'phopeth sydd ei angen arnoch chi i dyfu o'ch cartrefi', a dosbarthwyd 100 o gitiau tyfu a phlannu planhigion i aelwydydd yn ne orllewin Caerdydd.

Drwy gydnabod bod gerddi a mudiadau cymunedol eraill hefyd yn cefnogi pobl i dyfu o'u cartrefi, gweithiodd staff i greu rhwydwaith Cardiff Growing Together, a rannodd dros 12,000 o blanhigion ifanc i dyfu eu ffrwythau, llysiau a pherlysiau eu hunain gartref ar gyfer iechyd a llesiant.

Datblygodd hyn yn rhwydwaith Edible Cardiff y bydd Grow Cardiff yn parhau i'w gefnogi'n frwd drwy fod yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu.

'Dim ond gyda'ch cefnogaeth chi yr oedd modd cael amser i greu a datblygu'r rhwydwaith hwn a'r logisteg,' ychwanegodd Isla.

Roedd cefnogaeth y grant hefyd yn creu amser i weithio tuag at ddod yn brosiect Enghreifftiol Bevan, drwy wneud cais llwyddiannus i fod yn rownd derfynol y Wobr Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol 2021 (categori Natur), cynyddu staffio, sicrhau trydydd safle, ymwreiddio'r prosiect i rwydwaith presgripsiynu cymdeithasol lleol y GIG, a lansio 'Cymdeithion Tyfu' – chwaer-brosiect sy'n parhau i gefnogi oedolion agored i niwed i dyfu o'u cartrefi ac i gysylltu ag eraill.

3. **Datblygu Gwaith Addysgol** Grow Cardiff.

Cyn 2020, roedd gwaith addysgol Grow Cardiff yn ad hoc ac **yn cael ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr. Yn ystod y cyfnod clo, yn ymwybodol nad oedd nifer o bobl ifanc yn gallu parhau â'u gweithgareddau arferol neu dreulio cymaint o amser yn yr awyr agored fel arfer, bu'r Cyfarwyddwr yn llwyddiannus wrth gyflwyno prosiect i'r Moondance Foundation: Sow Some Sunshine.**

Aeth y prosiect hwn yn ei flaen i gefnogi dros 500 o blant mewn ysgolion hyb i dyfu eu blodau haul, eu llysiau a'u perlyisiau eu hunain.

Roedd Grow Cardiff yn gallu cyflogi Swyddog newydd i Ymgysylltu ag Ysgolion ac artist digidol i gyflwyno adnoddau i ysgolion a chefnogi'r gweithgareddau drwy wefan ddiwygiedig gyda fideos ymarferol, cystadlaethau, gemau a chymorth ar-lein i blant a staff i dyfu drwy gydol y cyfnod clo.

Ar ddiwedd y prosiect, cyflwynodd Grow Cardiff y syniad i barhau â'r gwaith gydag ysgolion, gan weithio y tro hwn gyda phum ysgol mewn ardaloedd difreintiedig o'r ddinas, a'u dysgu i dyfu drwy'r hydref a'r gaeaf.

Mae'r prosiect wedi parhau i ddenu ysgolion a mudiadau plant eraill i weithio gyda Grow Cardiff ac wedi gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, Prifysgol y Plant, rhaglen Ysgolion Iach a Chynaliadwy Caerdydd, Rhaglen Estynedig Gwyliau'r Haf a Gwên o Haf (mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd).

Yn ogystal, lansiwyd peilot gyda Trees for Cities, mudiad o Lundain, i gyflwyno cam Ymgysylltu eu rhaglen Meysydd Chwarae Bwytadwy. Mae wedi'i ddatblygu'n brosiect 10 ysgol y flwyddyn eleni, ac 20 ar gyfer y 2 flynedd ar ôl hynny, gan sicrhau £30K yn 2021 a swm tebyg yn y blynyddoedd dilynol.

Mae'r cyllid hwn yn ddatblygiad sylweddol wrth gynnal rhaglen ysgolion ac yn gadael gwaddol dull ysgol gyfan o ran cofleidio garddio a thyfu.

'Rydyn ni o ddifri ynglŷn â dysgu plant i dyfu – sgil sydd wedi'i gyfyngu gan fwyaf i nifer fach o blant mewn clybiau ar ôl ysgol', dywedodd Isla.

'Rydyn ni eisiau creu chwyldro ym maes tyfu ymhlith plant ar draws Caerdydd – bod pob plentyn yn dysgu sut i dyfu a bod hynny'n cael ei blethu drwy'r cwricwlwm, fel Cynllun Ysgolion Coedwig.

'Mae hyn yn uchelgeisiol iawn, ond credwn, gyda'ch help chi, ein bod ni wedi dechrau rhywbeth a fydd yn effeithio'n sylfaenol ar blant a'r diwylliant dysgu mewn ysgolion am flynyddoedd i ddod.'

Y cam nesaf yw datblygu rhaglen hyfforddi 'Ysgolion Gerddi', fel rhaglen achredu Ysgolion Coedwig, ac mae'r mudiad wrthi'n trafod gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddatblygu hyn.

4. Datblygiad Monitro a Gwerthuso

Mae Grow Cardiff wedi dechrau datblygu fframwaith monitro a gwerthuso sefydliadol gydag ymddiriedolwyr a staff; serch hynny, fe wnaeth effeithiau'r cyfnod clo cenedlaethol oedi'r broses hon.

Drwy gydol y pandemig, mae Grow Cardiff wedi parhau i weithio'n agos gydag Ysgol Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru i fonitro a gwerthuso'r prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol Tyfu'n Dda.

Mae Grow Cardiff hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â TrustLinks, mudiad presgripsiynu cymdeithasol blaenllaw yn Lloegr, drwy rannu arfer da a rhwydweithio gyda mudiadau eraill sy'n cyflawni presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer iechyd a lles ledled y DU.

'Rydyn ni'n gyffrous i fod ar flaen y gad o ran gwaith monitro a gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru,' dywedodd Isla.

'Heb eich cefnogaeth, ni fyddwn byth wedi cael yr amser i allu buddsoddi yn y maes hwn.

'Rydyn ni'n credu bod dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith yn allweddol er mwyn iddo gael ei ariannu a'i fod yn gynaliadwy, felly mae eich cefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy.'

Mae'r gwaith hwn yn parhau mewn cydweithrediad â phartneriaid a gyda chefnogaeth Busnes Cymdeithasol Cymru.

5. Datblygu gwefan newydd Grow Cardiff

Yn ystod cyfnod y grant, gweithiodd Grow Cardiff gyda chynllunydd gwefannau i adeiladu gwefan. Er ei fod yn waith sy'n dal i fynd rhagddo, penderfynwyd lansio'r prosiect Sow Some Sunshine drwy ddefnyddio'r wefan newydd fel adnodd allweddol i ymgysylltu â phlant a staff mewn ysgolion.

Mae cynlluniau i ddatblygu'r wefan ymhellach cyn i'r prif dymor tyfu ddechrau yn 2022.

6. Datblygu ymddiriedolwyr

Gadawodd Cadeirydd a Thrysorydd gwreiddiol Grow Cardiff y mudiad yn 2020 gan greu bwlch naturiol yn y mudiad yn ystod cyfnod heriol.

Parhaodd ymddiriedolwyr i gwrdd drwy gydol y pandemig ar Zoom (gan gynnwys cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol) a chymryd rhan mewn hyfforddiant i ymddiriedolwyr lle trafodwyd pob agwedd ar y rôl.

Mae Cadeirydd a Thrysorydd newydd wedi'u penodi erbyn hyn, gan ddod â phrofiad ffres a chanolbwyntio ar ddatblygiadau strategol pellach i sicrhau cynaliadwyedd y mudiad.

7. Datblygu ffyrdd newydd o weithio

Cyn y pandemig COVID-19 roedd Grow Cardiff wedi rhagweld datblygu prosiectau presgripsiynu cymdeithasol pellach a 'chlwb gwyliau gwyrdd'.

Ond wrth i'r pandemig ddatblygu, gohiriwyd y cynlluniau hyn a'u hailgynllunio i gefnogi cannoedd o blant i 'dyfu o'u cartrefi', sefydlu hybiau ysgolion a chreu 'Hyrwyddwyr Tyfu'.

'Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi gweithio mewn ffyrdd newydd doedden ni ddim yn credu oedd yn bosib yn y gorffennol! Mae wedi ein dysgu y gallwn fod yn hynod hyblyg, addasu'n gyflym a dal i wneud gwahaniaeth parhaol i fywydau pobl hyd yn oed pan oedd yr holl normau wedi diflannu'.

Drwy greu asesiadau risg COVID-19 trylwyr, Grow Cardiff oedd un o'r mudiadau cyntaf i ail-ddechrau ei weithgareddau pan oedd y cyfyngiadau yn caniatáu. Dychwelodd gwirfoddolwyr i'r gerddi ac maen nhw wedi sôn wrth staff droeon am werth cwrdd yn yr awyr agored a chael ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch.

Mae Grow Cardiff yn gweithio i ymgysylltu â mwy o bobl sydd wedi dod yn unig ers y pandemig.

TWF SEFYDLIADOL

'Mae grant Comic Relief wedi cael rhywfaint o'r effaith fwyaf pellgyrhaeddol i Grow Cardiff o blith unrhyw grant neu gymorth rydyn ni wedi'u derbyn. Ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd ac effaith eich cefnogaeth i'n twf a'n cynaliadwyedd fel mudiad,' dywedodd Isla.

'Mae'r grant wedi ein galluogi i gael lle i anadlu er mwyn archwilio, datblygu, goresgyn a chyflawni cymaint yn ystod y 18 mis diwethaf. Fel mudiad, rydyn ni wedi tyfu o ddechreuadau bregus i fodel cynaliadwy o dwf: gwreiddiau dyfnach a blagur cryfach.

'Heb eich cefnogaeth, dwi'n go siŵr na fyddem wedi gallu cyflawni'r gwaith pontio sylweddol hwn, sydd yn ei dro, wedi galluogi gwaddol ffyniannus i'r dyfodol ar gyfer y bobl a'r gerddi cymunedol a gefnogwn.

'Uwchlaw pob dim, mae'r grant wedi rhoi'r peth mwyaf gwerthfawr i ni sef amser i'n staff, ein hymddiriedolwyr a finnau i fuddsoddi yng ngwaith craidd y mudiad, yn hytrach na chanolbwyntio drwy'r amser ar gyflawni prosiectau.

'Mae eich cefnogaeth wedi golygu newid sylweddol i Grow Cardiff, gallwn ni ddim diolch digon i chi am y grant ac am gefnogaeth eich swyddogion grant, sydd wedi bod yn anhygoel. Diolch o galon.'

Mae Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief wedi effeithio'n bositif ar gynaliadwyedd Grow Cardiff drwy:

- Caniatáu staff i ganolbwyntio ar nodau ac amcanion strategol a buddsoddi amser yn eu diwallu.
- Creu sylfaen i ddod dros y pandemig ac archwilio ymatebion positif drwy ddulliau gwbl newydd.
- Rhoi amser i archwilio a datblygu syniadau am brosiectau cyfredol a phrosiectau newydd ac i sicrhau cyllid i'w cefnogi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â sicrhau cyllid Covid brys ar gyfer y gwaith cyfredol, mae Grow Cardiff wedi sicrhau grant £99K dwy flynedd wrth NHS Charities Together ar gyfer Tyfu'n Dda, £30K o gyllid wrth Trees for Cities, £30K tuag at gyflog y Cyfarwyddwr (o Ebrill 2021), £15k wrth Track 2000 i fentora a chefnogi gwirfoddolwyr yng Ngardd Gymunedol Glan yr Afon, £9k wrth Awards for All i ddatblygu Cymdeithion Tyfu.
- Mae wedi rhoi lle i ymddiriedolwyr adolygu, cynllunio a meddwl ymlaen yn hytrach nag ymateb i ddiffygion uniongyrchol o ran cyllid.
- Rhoi amser i gefnogi staff i ddatblygu yn eu rolau, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr.
- Rhoi amser i'r Cyfarwyddwr a'r ymddiriedolwyr adolygu polisiau a gweithdrefnau allweddol.
- Rhoi amser i'r Cyfarwyddwr a'r staff ddatblygu rhaglen 'Gwirfoddolwyr Arweiniol'.
- Rhoi amser i'r Cyfarwyddwr a'r staff ddatblygu perthnasoedd gyda phartneriaid a sefydliadau allweddol eraill yn y GIG, y trydydd sector, Cyngor Caerdydd ac ysgolion.
- Galluogi buddsoddiad mewn arferion gorau: profwyd hynny drwy fod yn un o ddau fudiad o fewn y trydydd sector i gael eu derbyn mewn carfan o 50 o fudiadau ar raglen Enghreifftiol Bevan.

- Rhoi amser i ddathlu a rhannu arferion gorau a llwyddiannau: prawf o hynny yw bod ar restr fer y Gwobrau Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol yn y categori natur.
- Cynyddu cyrhaeddiad: ar ddechrau 2020, roedd gan Grow Cardiff 20 o ddilynwyr ar Twitter. Mae ganddyn nhw 1374 erbyn hyn! Mae'r presenoldeb ar-lein wedi cynyddu cyrhaeddiad y mudiad yn sylweddol drwy gael amser i fuddsoddi mewn cyfryngau cymdeithasol a'r wefan newydd.
- Sefydlu canolfan newydd ym Mhafiliwn Grange, llogi ystafell fawr ar y safle bob wythnos i staff gael cyfarfodydd un-i-un gyda'r Cyfarwyddwr a chyfarfodydd tîm rheolaidd bob mis. Mae hyn wedi cryfhau'r ymdeimlad o 'dîm' a chefnogi ei gilydd.
- Cynyddu capasiti staffio ac adnoddau ar draws pob prosiect. Er gwaethaf y pandemig COVID-19, mae Grow Cardiff wedi cynyddu eu tîm o staff o ddau weithiwr rhan amser (cyfwerth â 1.4 staff llawn amser) ar ddechrau'r cyllid i bump o weithwyr rhan amser (chwech cyn bo hir), sy'n gyfwerth â 3.44 o weithwyr llawn amser, yn ogystal â staff sesiynol.

ADBORTH RHANDDEILIAID

'Yma ... fe wnes i sylweddoli fy mod yn teimlo'n ddiogel. Dwi'n ymddiried yn y bobl yma. Fe wnes i ddarganfod bod gen i gymuned newydd, felly mewn rhai ffyrdd mae fel bod gyda theulu. Dwi'n teimlo'n hapus iawn ac mae fy hyder wedi newid yn aruthrol' – Claf sy'n gwirfoddoli yng Ngardd Gymunedol Dusty Forge, prosiect Tyfu'n Dda

'Fel meddyg teulu a Chyfarwyddwr Cymunedol y clwstwr, dwi wedi gweld manteision y prosiect wrth gefnogi cleifion sy'n dioddef o ynysigrwydd cymdeithasol a phroblemau seicolegol eraill. Dwi wedi gweld cleifion sydd wedi brwydro ers blynnyddoedd lawer, yn ffynnu yn amgylchedd cefnogol yr ardd Tyfu'n Dda. Mae'r berthynas glos gyda Gofal Sylfaenol yn galluogi dull holistig tuag at ofal ac mae cyd-leoli'r prosiect mewn practis meddyg teulu yn helpu i newid y canfyddiad o feddygfeydd

meddygon teulu fel lle o lesiant. Mae adborth wrth staff y practis yn dangos bod y prosiect yn cael ei werthfawrogi gan bob aelod o'r tîm gofal sylfaenol wrth hyrwyddo iechyd a llesiant a chefnogi cleifion'- Dr Karen Pardy, Cyfarwyddwr Clwstwr De Orllewin Caerdydd

'Go ysbrydoledig' – disgrifiad o Tyfu'n Dda gan aelodau'r panel NHS Charities Together wrth ymateb i gais llwyddiannus am gyllid dwy flynedd ar gyfer Tyfu'n Dda (£99K), mewn partneriaeth ag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Gwasanaeth Gofal Cymunedol a Lles (CCAWS)

CEFNDIR

Elusen iechyd meddwl a lles yw'r Gwasanaeth Gofal Cymunedol a Lles (CCAWS) sy'n gwasanaethu'r gymuned yng Nghaerdydd drwy gwrsela, cyfeillio ac eirioli. Yn 2019, gwnaeth CCAWS gais i Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief yn sgil cynnydd o 50% yn y galw am wasanaethau gydag ôl-groniad o tua 40 o atgyfeiriadau ar unrhyw un adeg.

Cydnabu CCAWS nad oedd y seilwaith TG yn addas at y diben ac yn cyfyngu ar effeithlonrwydd a chapasiti'r mudiad. Nid oedd y gweinydd yn effeithiol ac ni allai uwchraddio i Microsoft Office 365, a oedd yn golygu bod yr holl systemau a gweithdrefnau ar bapur.

Dyfarnwyd £22,928 i CCAWS drwy Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief i uwchraddio seilwaith TG newydd. Byddai'r seilwaith TG newydd yn symleiddio'r gweithrediadau, yn gwella effeithlonrwydd gweithredol, ac yn arwain at ymateb gwell i atgyfeiriadau cleifion yn gyffredinol.

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT

Fel rhan o'r broses o uwchraddio'r seilwaith TG, prynwyd y canlynol gyda'r grant:

- 3x cyfrifiadur bwrdd gwaith newydd
- 3x gliniadur
- 2x llechen
- Ffonau symudol
- Uwchraddio gweinydd newydd i'r Cwmwl

Wrth i'r pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo cenedlaethol ddod i rym, daeth offer TG newydd yn bwysicach na'r disgwyl.

'Ar y pryd, ro'dd hwn yn rhywbeth digynsail a doedden ni ddim yn barod ar ei gyfer,' dywedodd Fehmida Ahmed, Rheolwr Cymunedol CCAWS. 'Ein seilwaith TG newydd wnaeth ein hachub ni a'n galluogi i barhau i weithredu heb darfu rhyw lawer neu heb darfu o gwbl ar ein gwasanaethau.

'Ni fyddem wedi cael unrhyw liniaduron ar gyfer gweithio gartref, unwaith i'r rheolau 'aros gartref' ddod i rym. Roedd gyda ni ffonau symudol i gyfathrebu tra'n gweithio y tu allan i'r swyddfa'.

Yn ogystal, fe wnaeth y grant ddiweddarau'r pecynnau meddalwedd, gan gynnwys:

- Pecyn Zoom
- MS Office ar-lein ac fel ap
- Uwchraddio cronfa ddata cleientiaid mewnol
- Adobe
- MS Teams
- MS Forms
- MS Power Automate
- Diweddariadau i'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol

Daeth y pecyn Zoom newydd yn hollbwysig wrth alluogi i gynnal sesiynau cwnsela 50 munud a chyrsgiau seico-addysg dwy awr o hyd ar-lein.

Cynigiodd y cyrsiau ar-lein strategaethau ymdopi hawdd i'w defnyddio ac roedden nhw'n ffordd o gysylltu â phobl yn rhithiol ac i leihau teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd. Disgrifiodd Fehmida y prosiect fel un 'allweddol' wrth alluogi i'r gwaith gael ei wneud yn rhithiol.

Roedd y grant hefyd yn gallu cyllido Swyddog TG a Phrosiectau, a drefnodd, ynghyd â rhoi cymorth TG, alwadau 'llesiant' gyda holl gleientiaid mwyaf bregus CCAWS drwy gydol y cyfnod clo.

Sicrhaodd yr arbenigedd a'r capasiti ychwanegol a ddarparwyd gan y swydd hon fod gwasanaethau wedi trosglwyddo'n esmwyth i'r arlwy rithiol. Roedd swyddi'r staff a gafodd eu hariannu drwy'r grant yn weithwyr rheng flaen a gadwodd ddrws y gwasanaeth ar agor drwy gydol y pandemig ar gyfer y rhai mwyaf bregus yn y gymuned, nad oedd ganddyn nhw fynediad at ffôn neu gysylltiad â'r we.

O ganlyniad i uwchraddio'r seilwaith TG, roedd CCAWS yn gallu darparu'r prosiect Community in Mind a chynnig gwasanaeth iechyd meddwl a llesiant i dros 500 o bobl yng Nghaerdydd o gefndiroedd cymunedau ethnig lleiafrifol amrywiol.

'Derbyniodd ein mudiad mwy o atgyfeiriadau ym mlwyddyn y prosiect hwn, ac ni fyddem wedi gallu ymdopi gyda'r galw pe na byddem wedi derbyn y grant hwn wrth Comic Relief' ychwanegodd Fehmida.

TWF SEFYDLIADOL

Bellach mae gan CCAWS seilwaith TG cadarn a modern sy'n addas i weithio'n hyblyg ac i sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon. Rhagwelir y bydd y system newydd yn gadael gwaddol parhaol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, gan ddiogelu'r gwasanaethau rhithiol a ddarperir gan CCAWS.

'Rydyn ni'n teimlo'n gryfach ac yn fwy cadarn fel mudiad, diolch i'r grant twf sefydliadol,' dywedodd Fehmida.

Yn sgil seilwaith TG gwell, roedd staff yn gallu datblygu cronfa fwy o wirfoddolwyr a oedd yn allweddol wrth gefnogi'r gwasanaeth drwy gydol y pandemig.

Sicrhaodd gwirfoddolwyr fod pob atgyfeiriad wedi'u cofnodi'n gywir a bod y cymorth wedi'i drefnu'n effeithlon. Mae'r gronfa newydd o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi hefyd fel cyfeillion cefnogol ac eiriolwyr i bobl â phroblemau iechyd meddwl yn eu cymunedau lleol.

Ni fyddai recriwtio, hyfforddi a gweithredu gwirfoddolwyr wedi bod mor effeithiol oni bai am offer TG, gan arwain at fwy o gapasiti i'r mudiad a gwerth ychwanegol i gleientiaid.

Mae ffurflenni a systemau papur hen ffasiwn wedi'u diweddarau gyda fersiynau ar-lein i sicrhau mynediad hawdd atyn nhw ac effeithlonrwydd wrth eu darparu. Mae'r symudiad di-dor i gyflwyno'n rhithiol wedi'i ganmol gan y gymuned gan arwain at enwebiad gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol am wobwr Uchel Siryf De Morgannwg am wasanaethau eithriadol yn ystod y pandemig COVID-19.

ASTUDIAETH ACHOS

Nod y prosiect Community in Mind (CiM) oedd cynnig cymorth amlieithog a diwylliannol sensitif i gymuned sy'n wynebu heriau gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant.

Egwyddor craidd CiM yw darparu cymorth holistig sydd wedi'i deilwra i wella gwytnwch meddyliol, cymdeithasol, emosiynol a chryfder ysbrydol unigolion, a thrwy hynny arwain at lesiant cymunedol gwell yn gyffredinol.

Cefnogodd y prosiect dros 500 o bobl o gymunedau amrywiol Caerdydd a de ddwyrain Cymru, ac er na chafod ei ragweld ar y pryd, bu'n ateb amserol i'r pandemig COVID-19.

Darparodd wasanaeth cwnsela ar-lein a dros y ffôn, cyfeillio rhithiol ac eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion. Yn ogystal, cyflwynodd y prosiect gyrsiau seico-addysg.

Fe wnaeth y Grant Twf Sefydliadol ariannu'r broses o atgyweirio systemau technoleg diffygiol CCAWS ar y pryd, gyda seilwaith IT newydd

sy'n addas at y diben, gyda'r gallu i gynnig gwasanaethau rhithiol a gwasanaethau o bell.

Roedd yr effaith yn enfawr ac mae wedi golygu eu bod wedi tyfu fel mudiad ac yn gallu cefnogi mwy o bobl ar draws y cymunedau amrywiol y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r systemau yn fwy cadarn ac effeithlon, gan alluogi profiadau gwell i gleientiaid a chymorth o ansawdd gwell.

Roedd Swyddogion Prosiect CiM yn gallu darparu ymateb rheng flaen a chymorth i bobl sydd â phryderon am eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Maen nhw'n darparu clust i wrando, galwadau llesiant sydd wedi'u cydlynu a chymorth un-i-un sydd wedi'i gydlynu.

Fe wnaeth un Swyddog Prosiect gynllunio a datblygu hyfforddiant cyfeillio rhithiol a chafodd cyfeillachwyr gwirfoddol newydd eu recriwtio i gynnig cymorth cymdeithasol ac emosiynol i bobl a oedd yn teimlo'n fwyfwy ynysig oherwydd y pandemig.

Mae eu buddiolwyr gan fwyaf o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, sydd bellach â mudiad cymorth gyda gwedd fodern a ffres, a chyfleusterau TG cyfoes, gwell, sy'n amlwg yn bwysicach nag erioed yn yr oes sydd ohoni.

Mae CCAWS bellach yn gweithredu fel mudiad elusennol cyfoes sydd â'r cyfleusterau i weithredu yn y byd rhithiol sydd ohoni.

ADBORTH BUDDIOLWYR

'Dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i heb CCAWS. Mae gen i OCD (Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol) a ro'n i'n ei reoli'n dda am flynyddoedd. Ond pan ddaeth y pandemig, daeth y cyfan nôl. Ro'n i'n ofnus, yn credu y byddai'r germau yn fy heintio i. Dechreuais olchi dwylo unwaith eto, ond i lefel eithafol. Dwi dal ar bigau drain ac yn teimlo'n ofnus. Fy nghyfeillachwr wnaeth fy achub i. Ro'dd siarad â hi unwaith yr wythnos yn rhoi gobaith a sicrwydd i fi. Dydw i ddim yn meddwl y gallwn i fod wedi dod drwy hyn hebdi. Ro'dd hi'n gwybod y pethau iawn i'w dweud.'

'Rhoddodd CCAWS fecanweithiau i fi wella fy hunan-amheuon ac i herio'r gred a allai fod yn anghywir amdana i. Fe wnaeth CCAWS f'atgoffa o rywbeth gwych - sef bod yn fwy caredig i fi fy hun.'

'Roedd y gwasanaeth yn ddefnyddiol iawn oherwydd fe wnaeth fy helpu i ddeall fy anghenion personol a'r technegau ar gyfer iechyd meddwl gwell.'

ADBORTH GWIRFODDOLWYR

'Fe wnaeth CCAWS fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau proffesiynol a'm rhinweddau personol. Drwy ryngweithio â chleientiaid, ro'n i'n gallu cael mwy o wybodaeth am nifer o faterion iechyd meddwl, a sut i greu perthynas waith iach gyda'r cleientiaid hyn. Mae hyfforddiant CCAWS yn eich helpu i baratoi ar gyfer y rôl yn arbennig o dda a helpodd yr oruchwyliaeth a gefais i gynyddu lefel fy nghymhwysedd wrth weithio gyda fy nghleientiaid. Ro'dd pawb yn yr elusen yn fwy na pharod i helpu ac ar gael yn hawdd os ydych chi byth yn cael trafferth gyda rhywbeth. Ar y cyfan, mwynheais fy amser gyda CCAWS yn fawr, a bydd clywed pa mor ddiolchgar yw'r cleientiaid am eich amser yn rhywbeth fydd yn aros gyda fi am byth, a byddem yn argymhell bod yn gyfeillachwr heb os!'

'Mae'r gefnogaeth yn CCAWS yn teimlo'n gyflawn ac yn holistig. Nid dim ond gwasanaeth cwnsela sydd ar gael ond gall hefyd helpu cleientiaid i ddatrys problemau eraill drwy eiriolaeth. Dydyn nhw ddim yn rhoi'r ffidil yn y to ar berson ac yn mynd â'r maen i'r wal. Dim ond tîm bach ydyn nhw, ond mae'n teimlo fel cymuned.'

'Yn bersonol, mae CCAWS wedi bod yn brofiad gwych, nid yn unig fel mudiad a wnaeth fy helpu i wneud y mwyaf o'm lleoliad gwaith fel therapydd, ond hefyd fel lle i rannu a dysgu wrth eraill. Mae CCAWS wedi rhoi cyfle i fi ddatblygu fy sgiliau fel cwnselydd a hyfforddwr. Mae'r staff wedi fy annog ac wedi credu yn fy ngallu. Felly, ro'n i'n teimlo fy mod i wedi fy ysgogi i weithio ac i gymryd rhan. Dwi'n dal i wneud'.

'Fe wnes i weithio gyda chleientiaid amrywiol iawn: ymfudwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, menywod, dynion, hŷn, ifancach, pobl oedd angen ambell sesiwn i oresgyn gorbryder hyd at sesiynau hirach i ddeall

eu trawma. Iselder, gorbryder, trawma ac anhwylderau personoliaeth oedd yr achosion mwyaf cyffredin. Ar gyfer rhai o'r achosion, roedd angen atgyfeirio at lefel uwch o ymyrraeth; serch hynny, llwyddodd y rhan fwyaf ohonyn nhw i gael yr offer angenrheidiol i reoli eu trallod eu hunain.'

Sistema Cymru - Codi'r To

CEFNDIR

Prosiect adnewyddu cymunedol llawr gwlad yw Sistema Cymru - Codi'r To, sy'n defnyddio cerddoriaeth i wella bywydau pobl ifanc a'r cymunedau lle maen nhw byw.

Wedi'i sefydlu yn 2014 gan grŵp o bobl leol a oedd yn awyddus i fynd i'r afael â thlodi plant yn eu cymuned, mabwysiadodd Codi'r To raglen a dulliau dysgu El Sistema o Venezuela.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno gan fwyaf drwy gyfrwng y Gymraeg, un o ddim ond dyrnaid o brosiectau a gyflwynir drwy iaith leiafrifol.

Adeg gwneud cais i Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief, roedd Sistema Cymru yn wynebu ansicrwydd ariannol ar ôl i Gyngor Celfyddydau Cymru dynnu'r cyllid craidd. O ganlyniad, cafwyd cydnabyddiaeth bod angen addasu ffrydiau incwm a chryfhau capasiti'r mudiad.

Dyfarnwyd £38,387 i Sistema Cymru i gyflogi Swyddog Datblygu Busnes ac Ymgynghorydd Codi Arian i feithrin gallu ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol.

EFFAITH PANDEMIG COVID-19

Creodd pandemig COVID-19 nifer o heriau ar gyfer Sistema Cymru ac effeithiodd ar y broses o gyflwyno'r prosiect yn ôl y bwriad. Mae Codi'r To yn dibynnu ar gyswllt uniongyrchol gydag ysgolion a myfyrwyr er mwyn ymgorffori pob elfen a sgil yn llwyddiannus. Yn ddealladwy, cafodd y broses o gyflwyno'r prosiect arferol ei rhwystro gan fesurau'r cyfnod clo a chau ysgolion.

Ym mis Ebrill 2020, cafodd pum aelod o staff dysgu eu rhoi ar ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth drwy gyfnod y Coronafeirws a lleihawyd oriau gwaith y cydlynedd prosiect 20%. Er gwaethaf hynny, roedd staff Codi'r To yn gallu goresgyn heriau'r ynysu a'r cyfnod clo drwy

addasu'n gyflym i wersi ar-lein a gweithgareddau rhithiol a oedd yn annog ac yn ysgogi'r myfyrwyr a'r rhieni yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cafodd ansicrwydd y pandemig effaith ar hyfywedd ymdrechion codi arian mewn tirlun ariannu annibynadwy. Drwy ystyried demograffeg a chynulleidfa Codi'r To, daeth yn amlwg yn gyflym y byddai codi arian yn y gymuned yn ansensitif ac yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau.

Penderfynwyd defnyddio'r amser fel cyfle i baratoi ac i dyfu Codi'r To i fod yn barod ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a gweithdai yn y dyfodol.

'Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at heriau dirifedi wrth geisio datblygu ymdrechion codi arian Codi'r To,' dywedodd Carys Bowen, Cydlynnydd Codi'r To. 'Gyda'r cyfuniad o weithio o bell a thrafferthion cysylltu â'r we, cymunedau cyfagos yn cael eu heffeithio'n ariannol yn sgil y pandemig, cyfnodau clo cenedlaethol, hunanynysu etc., mae gweithio'n effeithlon wedi bod yn anodd ar brydiau.'

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT

Er mwyn crisialu effaith y rhaglenni'n well wrth fynd i'r afael â thlodi o fewn y gymuned, cynhaliodd Codi'r To adolygiad o weithdrefnau monitro a gwerthuso, gan arwain at fframwaith safonedig newydd.

Cafodd yr adolygiad ei arwain gan Sheleagh Llewelyn o Richard Newton Consulting a gafodd ei chyllido gan Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief ochr yn ochr â staff Codi'r To. Mae'r fframwaith wedi'i ymgorffori i'r broses o gyflwyno'r rhaglen a'i ddefnyddio'n hyblyg i weithio mewn ysgolion a'r gymuned ac yn bodloni eich holl ofynion adrodd. Yr elfennau yw:

- Adrodd blynyddol
- Data gwaelodlin
- Portffolio Cyfranogwyr

- Holiadur i gyfranogwyr
- Holiadur i athrawon
- Holiadur i bartneriaid / gwirfoddolwyr
- Astudiaethau achos
- Cofnodi digwyddiadau cymunedol
- Mesur effeithiau

Defnyddiwyd y grant hefyd i ail-ddyfeisio brand Codi'r To i gyfle neges a diwylliant y prosiect yn well. Defnyddir lluniau newydd a ffontiau a lliwiau sydd wedi'u hail-frandio i ddatblygu nwyddau newydd ac adeiladu ymwybyddiaeth brand yn y gymuned.

Mae'r brand ar ei newydd wedd hefyd yn cael ei ddefnyddio drwy roi pwyslais o'r newydd ar bresenoldeb cyfryngau cymdeithasol. Galluogodd y grant i Codi'r To fuddsoddi mewn meddalwedd i symleiddio, monitro ac arallgyfeirio gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol.

Mae defnyddio cyfuniad o Hootsuite, MailChimp a Canva wedi trawsnewid presenoldeb ar-lein y prosiect, drwy ddarparu cynnwys deniadol sydd wedi'i frandio drwy gydol cyfnodau clo COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys yr ymgyrch ar-lein 'Cwrdd â'n Tiwtoriaid' ar Facebook ac Instagram i bersonoli'r gweithgaredd i wylwyr ar-lein, yn ogystal â chylchlythyr bob chwe mis sy'n cael ei ddsbarthu gan Hootsuite i rannu gwybodaeth ac annog codi arian ar-lein. Mae'r feddalwedd wedi bod o fudd i gynaliadwyedd y mudiad drwy gynyddu effeithlonrwydd y gwaith a mwy na haneru'r amser a gymerir i fonitro ymgysylltiad.

Roedd y grant hefyd yn gallu ariannu Swyddog Datblygu Busnes a ganolbwyntiodd ar arallgyfeirio'r cyllid drwy ddatblygu partneriaethau corfforaethol a chymorth gyda chodi arian yn y gymuned. Mynegodd nifer o fusnesau lleol ddiddordeb i ddatblygu perthnasoedd ar gyfer partneriaethau corfforaethol, ond yn anffodus cafodd y gwaith yn y maes

hwn ei arafu'n sylweddol yn sgil y pandemig COVID-19, felly mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen.

Yn yr un modd, oherwydd y demograffeg cymdeithasol y mae'r prosiectau'n gweithio â nhw, effeithiodd y pandemig COVID-19 yn sylweddol ar gapasiti cymunedau i gefnogi ymdrechion codi arian yn ystod cyfnod y grant. Mae presenoldeb ar-lein cryfach wedi helpu i adeiladu cefnogaeth gymunedol ac mae cyflwyno taflenni gwybodaeth a thaflenni cofrestru Ffrindiau Codi'r To wedi helpu i ddatblygu sylfaen o wirfoddolwyr. Wrth i effeithiau'r pandemig leihau, bydd Ffrindiau Codi'r To yn helpu i ddatblygu syniadau codi arian yn y gymuned i'r dyfodol.

'Fel Cydlynnydd, dim ond ar y ceisiadau grant ro'n i'n gallu canolbwyntio arnyn nhw, gyda chefnogaeth Richard Newton Consulting – ro'dd cael cymorth ychwanegol Eleanor [Swyddog Datblygu Busnes] yn golygu am y tro cyntaf y gallem gysylltu â busnesau lleol ac aelodau'r gymuned i ddatblygu ein presenoldeb ar-lein, ac felly datblygu ffyrdd newydd o weithio' ychwanegodd Carys.

'Bydd cyllid ymddiriedolaethau a grantiau yn parhau i fod yn ganran sylweddol o gymysgedd gyllido Codi'r To yn ystod y 3 blynedd nesaf a thu hwnt, ond am y tro cyntaf, ro'dd gennym yr adnoddau i ddatblygu ein gweithgareddau cymunedol ac ar-lein.'

TWF SEFYDLIADOL

Er gwaethaf heriau'r pandemig, defnyddiwyd cyllid y grant yn effeithiol i gyflogi Swyddog Datblygu Busnes ac Ymgynghorydd Codi Arian - Richard Newton Consulting. Gweithiodd y ddwy swydd gyda'r staff cyfredol i sicrhau bod y prosiect yn goroesi'r cyfnod clo ac y gallai fod mewn sefyllfa sefydlog i dyfu'n y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod clo, sicrhodd Richard Newton Consulting 3 grant Covid 19 brys wrth Sefydliad Steve Morgan, Ymddiriedolaeth Goffa Samuel Gardner a'r Foyle Foundation – cyfanswm o £9,164.

Talodd yr arian hwn am offerynnau taro ychwanegol ac offer technegol, gan gynnwys gliniaduron ac offer recordio newydd, gan alluogi'r prosiect

i barhau drwy'r pandemig yn ogystal â chynnig adnoddau ychwanegol parhaus.

Yn ychwanegol, sicrhawyd £43,000 mewn grantiau drwy gymorth grantiau codi arian wrth Richard Newton Consulting gan The Peoples Postcode Lottery, Sefydliad Trusthouse, Cronfa Addysg Thomas Howell ar gyfer Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwendoline a Margaret Davies, Sefydliad Teulu'r David, Tŷ Cerdd ac Ymddiriedolaeth Elusennol Gweddilliol Louis Nicholas – sicrhawyd cyfanswm o £52,164 yn ystod cyfnod grant Comic Relief a fydd yn cynnal y prosiect am y 6 mis nesaf.

Bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi Codi'r To i ehangu oriau tiwtora drwy ddarparu addysg i dros 500 o ddisgyblion – cynnydd o dros 110 o ddisgyblion ers gweithgareddau arferol cyn y pandemig. Bydd Codi'r To hefyd yn gallu buddsoddi mewn offerynnau pres a tharo newydd er mwyn i gerddorion ifanc eu benthyg.

SYLWADAU TIWTOR

'Ro'dd yn wych cael dychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill ar gyfer sesiynau wyneb yn wyneb gyda phlant Meithrin a Derbyn. Yn ystod fy ymweliad cyntaf ag Ysgol Maesincla, rhoddodd merch 5 oed amlen ar y bwrdd er mwyn i fi ei gasglu wrth adael. Tu fewn i'r amlen, ro'dd calonnau papur y buodd hi'n brysur yn eu lliwio a'u torri allan yn arbennig er mwyn fy nghroesawu nôl!

'Yn ogystal, bydd yn anodd anghofio'r wên fawr ar wyneb merch fach yn y dosbarth Derbyn, a oedd yn amlwg wrth ei bodd yn fy ngweld yn yr ysgol yn hytrach nag ar sgrin!

'Mae datblygu ffyrdd newydd o gyflwyno gweithgareddau cerddorol i blant wedi bod yn heriol. Weithiau, mae technoleg yn ein siomi ni, a gall fod yn anodd gweld ymateb plant drwy'r sgrin. Er gwaethaf hynny, bu'n flwyddyn bositif.

'Dwi wedi dysgu nifer o sgiliau newydd tra'n creu fideos wythnosol i'r plant. Bu'n gyfle da i ddatblygu fy mherthynas gyda'r athrawon yn yr

ysgol drwy drafod ar e-bost ac wrth weithio gyda'n gilydd yn ystod y sesiynau rhithiol.

'Dwi hefyd wedi dysgu sut i ffrydio ar Facebook Live drwy ddefnyddio "Streamlabs OBS". Dwi'n gobeithio y bydd profiadau amrywiol y flwyddyn hon yn ein helpu i fod yn fwy hyblyg ac i ymateb yn bositif i heriau'r dyfodol.'

- Lucy Clement Evans – Tiwtor Cyfnod Sylfaen

ASTUDIAETH ACHOS

<https://www.youtube.com/watch?v=EgmcjYHjapI>

ADBORTH

'Ro'dd fideos Bari a'r criw yn ei chadw i fynd drwy'r cyfnod clo - mae wrth ei bodd gyda Codi'r To. Diolch i chi x' – Rhiant cyfranogwr

'Gwych diolch o galon i chi. Fydd y dysgwyr wrth eu boddau yn gweld y fideo yma. Edrych ymlaen i weld y canlyniadau.' – Gareth Wyn Jones, Pennaeth Ysgol Glancegin

YMCA Pen-y-bont ar Ogwr

CEFNDIR

Mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr yn galluogi ac yn grymuso plant a phobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial drwy weithgareddau cymdeithasol, corfforol, celfyddydol ac emosiynol. Mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn weithredol ers 1897 a chafodd ddatblygiad trawsnewidiol yn 2015 er mwyn diwallu anghenion y gymuned yn well.

O'r pwynt hwn profodd y mudiad dair blynedd o dwf a llwyddodd i arwain nifer o brosiectau cymunedol i bobl ifanc. Serch hynny, nododd y Bwrdd a'r tîm arweinyddiaeth fwlch o ran sgiliau ac angen am gyllid, gwerthuso a monitro proffesiynol i alluogi ehangu a thwf pellach.

Dyfarnwyd £36,287 i YMCA Pen-y-bont ar Ogwr drwy Gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief i gyflogi Swyddog Cydymffurfiaeth, Cyllid a Llywodraethu a fyddai'n cynyddu gallu'r tîm rheoli i ddatblygu cynllun busnes tair blynedd ac i ganolbwyntio ar dwf y sefydliad.

EFFAITH PANDEMIG COVID-19

Cafodd YMCA Pen-y-bont ar Ogwr a'r broses o gyflawni eu prosiect gyda Chronfa Twf Sefydliadol Comic Relief eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo cenedlaethol ar ôl hynny.

Ar ôl methu â dod o hyd i ymgeisydd llwyddiannus yn y rownd gyntaf o gyfweiliadau ar gyfer rôl Swyddog, roedd yr ail rownd o gyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer 24 Mawrth 2020, ond cafodd y broses ei hoedi oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol. Yn sgil hynny a'r ffaith bod staff ar ffyrlo, penderfynwyd ail-ystyried y strategaeth i gyflawni nodau'r prosiect yng nghyd-destun anarferol y pandemig.

'Mae'r rôl Cydymffurfiaeth, Perfformiad a Chyllid yn gofyn am set eang o sgiliau, ac efallai ein bod wedi bod yn uchelgeisiol wrth feddwl y gallai gael ei gyflawni gan un person. Mae'r sefyllfa hon wedi'i gwaethygu yn

sgil y cyfnod clo, gyda llai o symudedd gweithwyr posib...mewn trafodaethau gyda'n Bwrdd, ein nod yw lliniaru risgiau a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r YMCA yn ystod cyfnod cyllid Comic Relief, sy'n hanfodol i hwyluso cyfnod allweddol o dwf a thrawsnewidiad' – Swyddog Datblygu Ieuencid

Cytunwyd yn lle bod y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithiwr llawn amser, byddai YMCA Pen-y-bont ar Ogwr yn ail-broffilio ac yn cyflogi arbenigwyr llawrydd ar gontractau byr dymor. Galluogodd hyn y mudiad i recriwtio'r arbenigedd angenrheidiol i adeiladu systemau a 'sicrhau map trywydd cynaliadwy i'r dyfodol'.

Yn ogystal â heriau'r pandemig COVID-19, roedd y tîm yn YMCA Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdopi â thrasiedi bersonol wrth i reolwr y ganolfan gael trawiad ar y galon ac roedd staff yn ymdopi â phrofedigaeth deuluol. Yn naturiol, effeithiodd hynny ar y mudiad yn ehangach a'r broses o gyflawni'r prosiect.

'Bu'n rhaid i ni addasu a newid yn gyson yn unol â'r canllawiau COVID newidiol a disgwyliadau, meddyliau ac ofnau pobl ifanc.'

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT

Ar ôl ail-gynllunio'r prosiect i gyflogi ymgynghorwyr allanol, roedd staff yn gallu gwneud cynnydd tuag at y datblygiad sefydliadol a fwriadwyd. Yn ogystal â thalu ymgynghorwyr, cysylltodd YMCA Pen-y-bont ar Ogwr â grwpiau lleol eraill i ffurfioli partneriaethau cymorth sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Mae Valley Kids yn fudiad sydd â rôl debyg i YMCA Pen-y-bont ar Ogwr mewn sir gyfagos, a gynigiodd eu harbenigedd codi arian a llywodraethu i roi cyngor ar ddisgrifiadau swyddi a datblygu polisïau newydd i gefnogi'r grant hwn.

Mae hyn bellach wedi'i ffurfioli mewn cytundeb cymorth ar y cyd. Roedd YMCA Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn gallu sicrhau rhagolygon ariannol pro bono o gwmni cyfrifo lleol i helpu i siapio cynllun busnes ar gyfer twf ariannol.

Prif allbwn y prosiect hwn fu datblygiad llwyddiannus [Cynllun Datblygu Busnes](#) 3 blynedd. Nod y cynllun yw lliniaru risg a gwneud y mwyaf o'r buddion er mwyn i'r YMCA hwyluso cyfnod allweddol o dwf a thrawsnewid. Mae'r cynllun yn nodi'r angen am 'YMCA newydd a gwell yn sir Pen-y-bont ar Ogwr' mewn ymateb i fesurau cyni llywodraeth leol ochr yn ochr â diddordeb newydd yng ngwasanaethau'r YMCA yn y gymuned.

Er mwyn cyflawni hynny, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi awgrymu bod YMCA Pen-y-bont ar Ogwr mewn lle delfrydol i ffynnu o dan fodel gweithredu neu gyd-gynhyrchu newydd. Mae'r cynllun datblygu wedi blaenoriaethu 3 nod strategol i gyflawni'r weledigaeth o fodel cyd-gynhyrchu ffyniannus i gynnal y mudiad:

- I roi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan er mwyn datblygu sgiliau am oes
- I ragweld ac ymateb i anghenion newidiol pobl ifanc a'r sector ieuenctid
- I fod yn llais blaenllaw ar gyfer y sector ieuenctid ar draws Pen-y-bont ar Ogwr

Mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu penodi aelod newydd o'r bwrdd i helpu i lenwi'r bwlch sgiliau mewn perthynas â pholisi sefydliadol. Mae gan yr aelod newydd o'r bwrdd brofiad wrth gyflawni safonau ansawdd PQASSO a Buddsoddwyr mewn Pobl a gwneud cysylltiadau â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim a'r Marc Safon Gwaith Ieuenctid, y mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wrthi'n mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd.

Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i gyflogi ymgynghorwyr meddalwedd i ddatblygu seilwaith TG, gan gynnwys diweddarau meddalwedd a symleiddio systemau'r swyddfa. Galluogodd hynny i glybiau LGBTQ+ ac anabledau symud ar-lein yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol. Yn ogystal, creodd yr ymgynghorwyr wefan newydd i gynyddu'r hyn a gynigir i aelodau ac i ddatblygu gwasanaethau peripatetig newydd.

Galluogodd cyllid Comic Relief i YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wella systemau ariannol drwy brynu mynediad at feddalwedd Quickbooks. Mae'r meddalwedd hwn yn golygu y gellir creu cyfrifon ar unwaith yn lle'n flynyddol fel bod y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael darlun cywir o'r pwysau ariannol sydd ar y mudiad ar hyn o bryd i hwyluso'r gwaith o ragweld a chynllunio.

Gyda'r grant yn cynnig cymorth busnes ychwanegol a chynnydd yn amser a chapasiti staff, mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu diwallu, datblygu partneriaethau, cynllunio a chyflawni prosiectau y mae dirfawr eu hangen.

Er enghraifft, roedd mwy o gapasiti yn golygu rhoi cyfle i staff gael amser i gynllunio a chyflwyno digwyddiad 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Pobl Ifanc'. Creodd y digwyddiad y cyfle i wasanaethau lleol gwrdd a thrafod eu gwaith ac edrych ar gyfleoedd newydd i ddatblygu gwasanaethau i bobl ifanc ac am waith partneriaeth. Mynychodd dros 40 o fudiadau, gyda phob un ohonyn nhw'n gweithio gyda phobl ifanc.

Amlygodd y digwyddiad yr angen am bartneriaethau a chyfathrebu cryfach ar draws y Fwrdeistref. O'r digwyddiad hwn, crëwyd is-grŵp pobl ifanc ac iechyd meddwl i edrych ar lwybrau a bylchau. Nod y grŵp hwn yw sicrhau, lle bynnag y mae person ifanc arni gyda'u hiechyd meddwl, bod gwasanaeth ar gael ac yn hygyrch iddyn nhw. Dywedodd un o aelodau'r grŵp:

'Ers dechrau ein partneriaeth â YMCA Pen-y-bont ar Ogwr a'r digwyddiadau maen nhw wedi'u trefnu a'u cyflwyno, mae gennym bellach raglen iechyd emosiynol anhygoel i bobl ifanc. Dwi wastad yn cyfeirio pobl ifanc at y gwasanaeth ac mae'r adborth a dderbyniwyd wrthyn nhw wedi bod yn bositif. Dwi wedi cael y cyfle i weld pobl ifanc yn eu harddegau sy'n swil ac yn unig yn ffynnu dros yr wythnosau, mae'r ystafell yn llawn chwerthin a sgwrsio. Mae pawb ar eu hennill!'

Rhwng cyfnodau clo, fe wnaeth YMCA Pen-y-bont ar Ogwr gwrdd â Chanolfan Byd Gwaith a Chymorth Adfer yn y Gymuned, i ail-sefydlu prosiect llwyddiannus arloesol a chyflwynodd y peilot cyntaf. Mae'r angen am brosiectau Iechyd Emosiynol wedi cynyddu'n ddramatig, ac

mae staff wrthi ar hyn o bryd yn gwneud cais am gronfeydd ychwanegol i gefnogi prosiect llawn amser.

TWF SEFYDLIADOL

Dyma sut mae Reg Denley, rheolwr Canolfan YMCA Pen-y-bont ar Ogwr yn ei deimlo am sut mae Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief wedi cyfrannu at dwf sefydliadol:

‘Mae’r cyllid wedi bod yn hollbwysig i hwyluso cyfnod allweddol o drawsnewid a chynaliadwyedd ac rydyn ni’n hyderus y daw mwy o dwf positif unwaith y bydd cyfyngiadau COVID yn caniatáu.

Mae'r grant wedi galluogi datblygiad systemau cymorth busnes a datblygu strategaeth newydd. Mae YMCA Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael y capasiti i fod yn strategol wrth ddatblygu eu gwaith ar gyfer pobl ifanc, gyda phobl ifanc.

Mae'r amser sydd wedi'i arbed yn sgil recriwtio cymorth busnes am 12 mis, cymorth TG am dri mis a chymorth marchnata am dri mis wedi rhoi amser i'r tîm rheoli ddatblygu Strategaeth Fusnes YMCA Pen-y-bont ar Ogwr ac i ddatblygu ein gwaith gyda phobl ifanc ymhellach. Mae hyn wedi galluogi i wasanaethau gael eu hehangu a'u datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â'r partneriaethau sydd newydd eu datblygu.

Oherwydd yr amser a grëwyd o'r cyllid hwn a'r strategaeth newydd, mae'r cyllid hwn wedi cael effaith nid ar y presennol ond ar ddyfodol pobl ifanc’.

Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru

CEFNDIR

Fel elusen flaenllaw ar alar yn y DU, mae Gofal mewn Galar Cruse wedi bod yn helpu pobl sy'n cael trafferthion gyda galar a phrofedigaeth ers dros 60 mlynedd. Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru yw prif ddarparwr cymorth galar i bobl o bob oed yng Ngogledd Cymru, gan roi gwybodaeth arbenigol a chymorth wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Dyfarnwyd £39,959 i Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru yn sgil y galw cynyddol am gymorth er mwyn amrywio'r ystod o wasanaethau sydd ar gael a chreu 'Cefnogaeth i Bawb'. Drwy gynyddu'r amrywiaeth o gefnogaeth, y nod oedd cael dewis gwell o wasanaethau sy'n gweddu orau i'r unigolyn tra'n lleihau amseroedd aros.

EFFAITH PANDEMIG COVID-19

Rhoddodd COVID-19 bwysau digynsail ar Gofal mewn Galar Cruse a bu'n rhaid addasu'n gyflym. Roedd Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru yn gallu digideiddio seilwaith y mudiad yn llwyr gyda'r nod o atal unrhyw oedi gyda'r cymorth i gleientiaid.

Roedd y newid o gymorth personol i gymorth o bell yn ddi-dor gyda'r holl wirfoddolwyr yn cadw cysylltiad parhaus â'r rheini roedden nhw'n eu cefnogi adeg y cyfnod clo cychwynnol.

Gwelodd y mudiad hefyd ostyngiad sylweddol wrth i weithgareddau a drefnwyd gael eu canslo.

'Gan fod COVID-19 wedi effeithio ar y broses o gyflenwi ein gwasanaethau, mae wedi effeithio ar ein cyllidebau hefyd. Mae codi arian wedi mynd yn anodd heb ein digwyddiadau cyhoeddus arferol, ac yn ogystal, mae'r pwysau ariannol a deimlwyd yn genedlaethol wedi

cyfyngu ar allu nifer o bobl i roi arian. Er bod addasiadau i'r dulliau codi arian wedi bod yn bosib (digwyddiadau codi arian cenedlaethol ar-lein), mae grantiau wrth sefydliadau fel Comic Relief wedi dod yn bwysicach ar gyfer ein twf cynaliadwy a chapasiti uwch er mwyn cyrraedd y rheini sydd fwyaf mewn angen.' – Rheolwr Hyb

LLWYDDIANNAU'R PROSIECT

Cyn derbyn grant Twf Sefydliadol Comic Relief, darparodd Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru gymorth un-i-un i oedolion a phlant yn y gymuned, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i'r rheini oedd ddim yn gallu cael mynediad at gymorth wyneb yn wyneb.

Mae'r grant wedi galluogi'r mudiad i amrywio ystod y gwasanaethau sydd ar gael, gan roi mwy o ddewis a hyblygrwydd i bobl mewn galar gael mynediad at gymorth galar Cruse.

Mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau newydd o dan ymbarél 'Cefnogaeth i Bawb' – gan gynnwys sesiynau cymorth Deall eich Galar yn ddigidol, grŵp cymorth i grwpiau a grŵp cymorth i gymheiriaid.

Mae amrywio'r ddarpariaeth gwasanaethau nid yn unig wedi helpu gyda'r gefnogaeth i bobl sy'n galaru ond mae wedi cael effaith bositif ehangach wrth recriwtio gwirfoddolwyr - a llwyddodd hynny i barhau drwy'r pandemig yn sgil digideiddio'r siwrnai wirfoddoli gyfan – o'r recriwtio i'r cyfweiliadau a hyfforddiant drwy Zoom.

Mae hyn wedi ehangu'r cyrhaeddiad recriwtio drwy gael gwared ar gyfyngiadau daearyddol teithio i swyddfeydd am gyfweiliadau a hyfforddiant, sydd hefyd wedi lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer pryderon logistaidd i staff a hyfforddwyr.

Mae wedi rhoi mwy o fynediad a mynediad mwy hyblyg at hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus ar ôl recriwtio gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr cyfredol wedi derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus gan gynnwys Marwolaethau Sydyn a Thrawmatig, Aseiad Cyswllt Cyntaf a hyfforddiant brysbennu ac mae pawb wedi'u hyfforddi i gyflwyno sesiynau cymorth o bell dros y ffôn/ar-lein.

Mae'r cronfeydd ychwanegol wedi cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi Goruchwylwyr Galar Gwirfoddol i gyflwyno cymorth ychwanegol hanfodol a goruchwyliaeth i wirfoddolwyr wrth ddelio â galwadau cymhleth a gofidus.

Ym mis Mawrth 2020, roedd gan Gofal mewn Galar Cruse Gogledd Cymru 126 o wirfoddolwyr a gododd i 139 erbyn mis Awst. Ers Ionawr 2021 mae 26 o wirfoddolwyr newydd wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gydag wyth yn y broses o gael eu hyfforddi.

TWF SEFYDLIADOL

Drwy alluogi i ddarpariaeth gwasanaethau gael eu haddasu ac felly'r cyrhaeddiad, mae Cronfa Twf Sefydliadol Comic Relief wedi cael effaith bositif ar Cruse ac wedi gwella ei gynaliadwyedd hirdymor.

Er gwaetha'r galw cynyddol a'r pwysau ar wasanaethau oherwydd y pandemig, mae'r mudiad wedi gallu parhau a chynyddu ar lefelau gwasanaethau cyn cyfnod Covid. O fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021, cyflwynodd gwirfoddolwyr 457 o oriau ychwanegol o gymorth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ail-gynllunio'r sesiynau Deall eich Galar i hwyluso'r ddarpariaeth ar-lein wedi creu manteision ychwanegol, gan gynnwys dim terfyn ar nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan, llai o gostau wrth eu cyflwyno, cael gwared ar gyfyngiadau daearyddol o ran presenoldeb a darpariaeth a'r gallu i gleientiaid fynychu o'u cartrefi.

Yn y gorffennol, cafodd y digwyddiadau eu treialu'n llwyddiannus gyda grant Bags of Help wrth Tesco, o fewn Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r digwyddiadau hyn ar Zoom yn gyfle i groesawu cleientiaid newydd ar draws Gogledd Cymru ar ôl cael eu hatgyfeirio i Cruse. Maen nhw'n ddewisol ac yn gweithio i sicrhau bod yr holl gleientiaid yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn gynnar a'u bod yn cael gwybodaeth a chymorth wrth aros i gael Gwirfoddolwr Galar.

Lle bo angen, cynigir cymorth digidol i gleientiaid unigol ar ôl hynny er mwyn sicrhau y gallan nhw gael mynediad i'r digwyddiad. Os na all

cleientiaid fynychu'r digwyddiad neu os nad ydyn nhw eisiau ei fynychu, bydd eu hachos yn symud yn syth i'r cam dyrannu lle caiff eu hanghenion eu trafod gyda gwirfoddolwr sydd â phrofiad a chymwysterau addas, a chânt eu dyrannu ar gyfer cymorth un-i-un neu grŵp yn dibynnu ar yr hyn maen nhw'n ei ffafrio.

Mae presenoldeb yn y digwyddiadau hyn wedi amrywio rhwng 6 a 17 gyda 10 ar gyfartaledd ym mhob sesiwn. Mae nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn parhau i gynyddu. Mae llwyddiant y sesiynau yn y fformat hwn wedi hybu Gofal mewn Galar Cruse i ehangu'r rhaglen ar draws Cymru.

Mae'r gefnogaeth ar-lein gan gymheiriaid a lansiwyd o ganlyniad uniongyrchol i gronfa Twf Sefydliadol Comic Relief bellach wedi ennill ei blwyf gyda phobl yn mynychu'n rheolaidd. Cafodd Gobaith drwy Golled ei dreialu'n wreiddiol fel un digwyddiad cefnogaeth gan gymheiriaid ar 29 Chwefror 2020.

Achosodd y cyfnod clo cenedlaethol rai wythnosau'n ddiweddarach oedi o ran parhau â'r digwyddiad llwyddiannus, ond ar ôl cryn baratoi, asesu risg a chynllunio gofalus, lansiwyd Gobaith drwy Golled ar-lein yn ystod haf 2020.

Bellach, cynhaliwyd 10 o ddigwyddiadau ac mae'r fformat o gyflwyniadau grŵp mawr gyda dau gyfnod o sesiynau grŵp llai i ddilyn wedi'i groesawu gan y rheini a oedd yn cymryd rhan. Mae adborth y grwpiau wastad yn bositif.

'Dwi'n gwerthfawrogi'n fawr iawn cael fy ngwahodd i'r digwyddiad a hyd yn oed ar ôl un sesiwn, dwi'n teimlo fy mod wedi fy nghynnwys ac yn rhan o grŵp arbennig iawn o bobl. Mae'n anodd ei roi mewn geiriau, sut ro'n i'n teimlo ar ôl y sesiwn, ond ro'n i'n teimlo fy mod i wedi cael cyfle i ddadlwytho, i adrodd fy stori a chael pobl a oedd eisiau gwranddo i wrando arna i. Dwi'n edrych ymlaen at y sesiwn nesaf.'

'Ro'dd yn hyfryd eich gweld chi a phawb arall ar yr alwad Zoom. Cyn mynychu'r digwyddiad, ro'n i'n ansicr beth i'w ddisgwyl. Serch hynny, yn syth ar ôl ymuno, ro'n i'n teimlo bod pawb yn fy nghroesawu ac ro'dd

hynny'n tawelu fy meddwl. Ro'dd y digwyddiad yn emosiynol iawn, ond ro'dd yn dda gallu siarad a gwrandao ar eraill sy'n mynd drwy amgylchiadau tebyg, i wybod nad o'n i ar fy mhen fy hun a'i bod hi'n iawn i gael y teimladau hyn. Doedd y grŵp ddim yn feirniadol ac ro'n nhw'n deall yn llwyr pan wnes i fynegi fy meddyliau a'm teimladau'.

Mae ystadegau o bobl sy'n cael mynediad i'r gwasanaethau a ddarperir drwy'r rhaglen 'Cefnogaeth i Bawb' yn dangos, ar gyfartaledd, bod y gymhareb o Fenywod i Ddynion sy'n cael mynediad at gymorth galar yn 13:7. Mae Gofal mewn Galar Cruse wrthi'n archwilio os oes budd edrych ar opsiynau ar gyfer grŵp Cymorth Galar i Ddynion yn benodol i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r opsiynau cymorth newydd a ddarperir drwy'r grant hwn wedi cael derbyniad da wrth gleientiaid a gwirfoddolwyr fel ei gilydd. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen 'Cefnogaeth i Bawb' yn parhau i lywio gwasanaethau'r dyfodol a holl ganghennau Gofal mewn Galar Cruse.

'Nid yw effaith lawn amrywio'r opsiynau cymorth i'w theimlo eto oherwydd effaith y pandemig. Mae ychwanegu cefnogaeth unigol, cefnogaeth grŵp a chefnogaeth cymheiriaid ar Zoom heb os wedi effethio'n bositif ar gynaliadwyedd y mudiad drwy'r pandemig COVID-19, ond yn y pen draw bydd manteision y gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu teimlo'n llawn ac yn fesuradwy unwaith y bydd cymorth personol yn opsiwn diogel a hyfyw unwaith eto i bawb. Swyddog Prosiect

ADBORTH

'Dwi'n byw ar fy mhen fy hun, ac mae 15 mis diwethaf y pandemig wedi bod yn anodd, felly dwi'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i gwrdd â phobl eraill, yn enwedig gan fod pawb yn deall sut brofiad yw colli rhywun sy'n annwyl i chi. Efallai bod ein hamgylchiadau'n wahanol, ond mae ein profiad o alar a cheisio gwneud bywyd i'n hunain ar ôl profedigaeth, yn debyg mewn sawl ffordd.

'Fe wnes i wir fwynhau'r sesiwn yn gynharach yr wythnos hon. Fe wnes i ddarganfod wedyn ei fod wedi corddi nifer o deimladau, ond mewn ffordd dda dwi'n meddwl. Weithiau dwi'n teimlo'n 'euog' nad ydw i wedi

symud ymlaen rhyw lawer ers marwolaeth fy ngŵr, ond drwy glywed straeon a phrofiadau pobl eraill, dwi wedi sylweddoli bod gan alar ei lwybr a'i batrymau ei hun. Ro'dd yn wych peidio â theimlo mor ynysig hefyd, ac ro'dd rhai o brofiadau'r grŵp yn eithaf gwylaidd. Yn fras, fe wnaeth lles i fi'.

'Gyntaf oll, diolch am y gwahoddiad i'm cyfarfod Zoom Gobaith drwy Alar cyntaf a'r un nesaf mewn cwpwl o wythnosau. Dwi'n gwybod fy mod wedi dweud hyn o'r blaen, ond ar ôl mynychu'r cyfarfod nos Lun, byddwn i'n dweud eich bod chi i gyd wedi gwneud jobyn anhygoel gyda'r trefniadau a chael y fformat yn berffaith. Ar ôl mynychu'r cyfarfod, byddwn i'n dweud fy mod am iddo bara ychydig yn hirach, ro'n i'n mwynhau fy hun. Braf hefyd oedd dal i fyny gyda chi a'r holl aelodau newydd. Dwi'n edrych ymlaen at ein sesiwn nesaf. Dwi'n edrych ymlaen at eich gweld i gyd eto ac efallai mwy o wynebau newydd a chyfarwydd.'

'Ro'dd y cyfarfod o gymorth i fi mewn ffordd arall hefyd. Fe wnes i sôn fy mod i newydd golli fy chwaer yng nghyfraith, a dwi wedi darganfod bod y profiad o wrando ar aelodau eraill y grŵp a'u cydnabod mewn ffordd gefnogol heb unrhyw feirniadaeth wedi fy helpu wrth siarad gyda fy mrawd am ei golled'.

'Ro'dd y cyfarfod cyfan yn ddefnyddiol i fi, ro'dd gwrandio ar bobl eraill, a phobl yn gwrandio arna i, yn ei dro, yn ddefnyddiol, ac yn iachusol mewn ffordd.'

'Ro'n i'n teimlo bod y sesiynau grŵp yn ddefnyddiol gan eu bod yn teimlo'n fwy agos-atoch, ac mae'n grêt ar gyfer yr unigolion hynny sydd efallai yn ei chael hi'n anodd siarad mewn grwpiau mawr.'

'Dwi'n gwerthfawrogi'n fawr iawn cael fy ngwahodd i'r digwyddiad a hyd yn oed ar ôl un sesiwn, dwi'n teimlo fy mod wedi fy nghynnwys ac yn rhan o grŵp arbennig iawn o bobl. Mae'n anodd ei roi mewn geiriau, sut ro'n i'n teimlo ar ôl y sesiwn, ond ro'n i'n teimlo fy mod i wedi cael cyfle i ddadlwytho, i adrodd fy stori a chael pobl a oedd eisiau gwrandio i wrando arna i. Dwi'n edrych ymlaen at y sesiwn nesaf.'

'Ro'dd yn hyfryd eich gweld chi a phawb arall ar yr alwad Zoom. Cyn mynychu'r digwyddiad, ro'n i'n ansicr beth i'w ddisgwyl. Serch hynny, yn syth ar ôl ymuno, ro'n i'n teimlo bod pawb yn fy nghroesawu ac ro'dd hynny'n tawelu fy meddwl. Ro'dd y digwyddiad yn emosiynol iawn, ond ro'dd yn dda gallu siarad a gwranddo ar eraill sy'n mynd drwy amgylchiadau tebyg, i wybod nad o'n i ar fy mhen fy hun a'i bod hi'n iawn i gael y teimladau hyn. Doedd y grŵp ddim yn feirniadol ac ro'n nhw'n deall yn llwyr pan wnes i fynegi fy meddyliau a'm teimladau'.